Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Bro Betws GG/Melin y Wig nos *Fercher 2/9/26 am 7.30 p.m. yn Neuadd Melin y Wig

*Dyddiad Newydd oherwydd nad oedd nos Fawrth yn gyfleus i nifer aelodau i gael cworwm.

Croesawyd ni i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Hefin Lloyd-Davies

Presennol – Glesni Williams, Hefin Lloyd-Davies, Dafydd Evans, Shaun Turner, Emyr Roberts, Helen Hitchmough (Clerc).

Ymddiheuriadau – Geraint Jones, Gwyn Edwards, Connor Edwards

Cofnodion o'r cyfarfod olaf - cytunwyd bod y cofnodion o'r cyfarfod olaf yn gywir.

Materion yn codi – nid yw'r £1000 wedi ei dalu er budd y Sioe. Aros i weld mantolen ariannol y Sioe a gweld os fydd ysgrifennydd ar gyfer sioe 2027 yn cael ei benodi/phenodi a bod y Sioe yn parhau.

Datganiadau diddordeb yn unrhyw fater ar yr agenda – dim

Cyllideb -Gwariant

Cyfrif Cadw/Reserve Account - £68.44
Cyfrif Cyfredol/Current Account – 13214438 –£8323.23
Derbyniadau neu wariant ers y cyfarfod olaf:
28/8/26 DCC Precept £1442 CR
Gwariant pellach i'w wneud:
Krystal Hosting (Safle We) £84 I'w ad-dalu i'r Clerc gan fod y taliad yn cael ei wneud o gerdyn personol y Clerc.
Cytunwyd i'r taliad cyfraniad arferol o £50 Pabi Coch er budd Royal British Legion.

Trafodwyd gwariant pellach sydd i ddod o'r cyfrifon fel cytunwyd wrth osod y precept.

Diweddaru a derbyn Polisi Rheoliadau Sefydlog - derbyniwyd diweddariadau a mabwysiadu'r Polisi yn gywir
Rheoleiddiwr Pensiwn (Pension Regulator) -Rhaid i bob cyflogwr gynnig Pensiwn Gwaith. Mae Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) yn bod i ddiogelu buddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn yn y gwaith, sicrhau gweinyddiaeth dda, a gorfodi cydymffurfiaeth cyflogwyr â chyfrifoldebau pensiwn yn y DU. Clerc yn cadarnhau nad oedd yn dymuno cymryd y Pensiwn Gwaith a bydd yn cofnodi/ diweddaru hyn ar-lein.

26-27 Gwobr Gyflog Genedlaethol -National Pay Award. Derbyniwyd y ddogfen diweddariad Gwobr Gyflog Genedlaethol am 26-27. Cadarnhawyd bod y clerc ar raddfa LC1 (13-17).

Sefyllfa Ffyrdd –

- Tyllau ar ffordd ger Buarth Rhug.
- Pant yn y ffordd ger Buarth Rhug.
- Hefyd ffens y parc chwarae ym Metws wedi disgyn.

Hyfforddiant - pawb i edych ar y rhestr cyrsiau a chysylltu gyda'r clerc os am fynychu unrhyw un.

Diffibryddion - cytunwyd bod y ddau diffibrydd yn gywir.

Bioamrywiaeth - Trefnu prynhawn o gasglu sbwriel a phlannu bylbiau cennin pedr o amgylch y pentrefi a ffordd rhwng Melin y Wig a Betws GG. (Dydd Sul 11/10/26)

Ceisiadau Cynllunio – dim.

Cyfarfod nesaf – Nos Fawrth 3/11/26.